**Cyfarfod: Y Cyd-bwyllgor Archwilio**
**Lleoliad: Trwy gyfrwng Teams**
**Dyddiad: 2 Rhagfyr 2025**
10am – 12.15pm

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Ms Kate Curran (KC) Cadeirydd<br>David Macgregor (DM)<br>Ms Julie James (JJ)<br>Ms Caroline Wheeler (CW)<br>Mr Farhan Shakoor (FS) |
| **Aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio** | Ms Carys Morgans, Y Prif Swyddog Gweithredol (CM)<br>Mr Gary Phillips, Y Dirprwy Prif Gwnstabl Dros Dro (GP)<br>Mr Edwin Harries, Y Cyfarwyddwr Cyllid (EH)<br>Ms Nicola Davies, Y Prif Swyddog Cyllid Dros Dro (ND)<br>Ms Linda Williams, Y Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol (LW)<br>Ms Fiona Roe, TIAA (FR)<br>Mr Jonathon Maddock, TIAA (JM)<br>Mr Jason Blewitt, Archwilio Cymru (JB)<br>Ms Aneesa Ali, Archwilio Cymru (AA)<br>Ms Gaynor Maddox, Pennaeth Rhaglenni a Newid (GM)<br>Ms Michelle Reynolds, Pennaeth Cyllid Dros Dro (MR)<br>Mr Neil Evans, Rheolwr Busnes Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (NE) |
| **Ymddiheuriadau** | Mr Dafydd Llywelyn, Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu (DLl)<br>Mr Ifan Charles, Y Prif Gwnstabl (IC)<br>Mr Mark McSweeney, Yr Uwcharolygydd Dros Dro (MM)<br>Ms Karen Davies, Yr Uwch-gyfrifydd (KD) |
| **Datganiadau o fuddiant:** | Dim |

| | CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 22 Hydref 2025 | | |
|---|---|---|---|
| **Rhif y cam gweithredu** | **Crynodeb o'r cam gweithredu** | **I'w yrru yn ei flaen gan** | **Cynnydd** |
| A 14 | Aildrefnu'r cyflwyniad seiberddiogelwch o gyfarfod mis Rhagfyr i ddyddiad diweddarach oherwydd yr angen i ystyried datganiad o gyfrifon 2024–2025 yng nghyfarfod mis Rhagfyr. | NE | **Ar Y Gweill** – bydd hyn yn cael ei gynnwys ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod a gynhelir ym mis Ionawr 2026. |
| A 17 | Bod y rhesymau dros yr oedi wrth weithredu argymhellion adnoddau dynol a gynhwysir yn yr adolygiad dilynol dros dro yn cael eu rhannu ag aelodau. | LW | **Ar Y Gweill** – gofynnwyd am gynllun prosiect gan Adnoddau Dynol, ac fe'i trafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Llywodraethiant Archwilio. |
| A 19 | Bod yr argymhelliad sydd wedi'i gynnwys yn adolygiad yr Adran Rheoli Adnoddau Dynol – Recriwtio a Hyfforddiant mewn perthynas ag iTrent, sydd â dyddiad cau o fis Ebrill 2027, yn cael ei wirio am berthnasedd ac o ran a fydd yn cael ei gyflawni. | LW | **Ar Y Gweill** – y cynllun yw i bob aelod o staff ar bob lefel gael mynediad at ddata'r gweithlu cyfredol drwy'r dangosfwrdd, a grëwyd drwy warws data i mewn i Power BI. Ar hyn o bryd dim ond i nifer gyfyngedig o unigolion sydd â mynediad i system iTrent y mae'r wybodaeth ar gael gan ei bod yn system gyfyngedig. Mis Ebrill 2027 yw'r amcangyfrif gorau ar hyn o bryd gan fod nifer o faterion i gytuno arnynt yn gyntaf, gan gynnwys cyllid ac adnoddau rheoli prosiectau. |

## 1. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2025

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2025 fel cofnod gwir a chywir gan y pwyllgor ar yr amod y byddai gwelliant yn cael ei wneud yn nodi mai David Macgregor nid oedd cadeirydd y cyfarfod hwnnw.

## 2. Adolygiad o'r camau gweithredu sy'n weddill

Dywedodd y cadeirydd ei bod yn dda gweld bod y camau gweithredu wedi'u cwblhau, ond cafwyd trafodaeth ynghylch a oedd yr aelodau'n fodlon â chyflawnder y camau gweithredu a gymerwyd.

Nodwyd cam gweithredu A 17 yn y lle cyntaf, a theimlwyd nad oedd gan yr aelodau y gwir sicrwydd angenrheidiol, a gofynnwyd am wybodaeth ychwanegol. Cadarnhawyd nad oedd cynllun y prosiect wedi cael ei ystyried gan y Grŵp Llywodraethiant Archwilio. Dywedodd MR y cytunwyd y byddai angen cynllun prosiect ar gyfer unrhyw argymhellion a oedd yn weddill o adolygiadau TIAA, ac y byddai templed yn cael ei rannu â swyddogion i'w gwblhau. Nodwyd bod gwaith yn parhau i ddatblygu'r templed. Dywedodd DM na ellid rhoi marc bod cam gweithredu A 17 wedi'i gwblhau yn yr achos hwn, a bod angen ystyriaeth bellach ar y mater yn y Grŵp Llywodraethiant Archwilio.

Dywedodd FS na ddylid rhoi marc bod argymhellion A 14 ac A 19 wedi'u cwblhau chwaith, ond marcio eu bod 'ar y gweill' nes bod y camau gweithredu wedi'u cwblhau.

**Cam gweithredu A 21 – bod camau gweithredu A 14, A 17 ac A 19 o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Hydref yn cael eu diwygio i adlewyrchu bod y gwaith yn dal i fod ar y gweill, a bod yr unigolyn cyfrifol yn cael ei newid ar gyfer A 17 ac A 19 i adlewyrchu'r unigolyn cywir sy'n gyfrifol.**

## 3. Cynllun Gwaith y Cyd-bwyllgor Archwilio

Darparwyd cynllun gwaith y Cyd-bwyllgor Archwilio er gwybodaeth i'r aelodau. Nodwyd gan yr aelodau bod cyfarfod mis Mawrth yn ymddangos yn gyfarfod prysur, a gofynnodd y cadeirydd a oedd angen ystyried popeth. Cytunodd NE y byddai'n edrych ar y cynllun gwaith ac yn sicrhau, lle bo'n briodol, bod yr eitemau wedi'u rhannu allan er mwyn sicrhau agendâu effeithlon ac effeithiol.

Dywedodd DM y dylai'r cynlluniau o ran y gwasanaeth di-dor fod wedi'u cynnwys yn y cyfarfod hwn. Dywedodd GM fod problemau wedi codi a bod y cynllunio wedi'i gwblhau, ac felly byddai'n cael ei gynnwys ar agenda mis Ionawr.

**Cam gweithredu A 22 – cynnwys y cynlluniau o ran y gwasanaeth di-dor ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod a gynhelir ym mis Ionawr 2026.**

4. **Cael yr wybodaeth ddiweddaraf o gyfarfod y Grŵp Llywodraethiant Archwilio a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd**

Rhoddodd MR yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau o gyfarfod y Grŵp Llywodraethiant Archwilio a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd. Darparwyd data perfformiad i'r pwyllgor, ac adroddwyd am y trafodaethau a gynhaliwyd mewn perthynas â'r traciwr a ddatblygwyd ar gyfer yr holl argymhellion agored. Nodwyd bod y gwaith hwn hefyd yn cael ei wneud gan yr Arolygydd Richard Janas, sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r holl fyrddau strategol sy'n adrodd ar argymhellion archwilio mewnol sy'n weddill, a meysydd i'w gwella ac argymhellion yn sgil arolygiadau gan yr Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi.

Bu'r grŵp hefyd yn trafod y Cynllun Archwilio drafft ar gyfer 2026–2027, a rhoddwyd ystyriaeth bellach i ddefnyddio'r 10 diwrnod wrth gefn a oedd yn dal i fod ar gael ar gyfer y flwyddyn hon. Hefyd, dywedodd MR fod y Grŵp Llywodraethiant Archwilio wedi gofyn i'r Adran Adnoddau Dynol fod yn bresennol yn y cyfarfod nesaf i drafod nifer y dyddiau ar gyfer sylwadau rheolwyr yn ymwneud â'r strategaeth llesiant a dau archwiliad arall yn ddiweddar.

Hyd yn hyn roedd 10 archwiliad wedi'u cwblhau ac roedd saith wedi cael sicrwydd sylweddol, dau wedi cael sicrwydd rhesymol, ac un wedi cael sicrwydd cyfyngedig.

Dywedwyd wrth y pwyllgor bod hyfforddiant archwilio mewnol wedi'i ddarparu i staff yn ddiweddar yn dilyn argymhelliad gan y pwyllgor. Dywedodd MR ei fod yn ymdrech ar y cyd a roddodd gyflwyniad da i'r swyddogion ar archwilio mewnol, yn ymdrin â disgwyliadau, ac yna'r gofynion mewnol a'r gwersi a ddysgwyd.

Cododd y cadeirydd fater mewn perthynas â'r graff a welwyd yn ddiweddar ar argymhellion agored, a dywedodd fod hwn wedi cyrraedd ei uchafbwynt ers 2023. Bu'n holi ynglŷn â'r rhesymau dros hyn. Dywedodd MR fod hyn wedi'i godi yn y Grŵp Llywodraethiant Corfforaethol, a bod gofyn i swyddogion fod yn realistig gyda'u hamserlen ar gyfer gweithredu'r argymhellion. Dywedodd MR y byddai'n ymgymryd â darn o waith i ddeall a oedd yr amseru yn realistig, ac a oedd blaenoriaethau eraill wedi effeithio ar eu gweithredu.

Dywedodd FS fod y pwyllgor wedi trafod y mater o argymhellion agored o'r blaen, ac nad oedd unrhyw reswm wedi'i nodi ynglŷn â symud dyddiad ymlaen hyd at chwe mis ymlaen llaw, ac ar sawl achlysur wedi symud eto am chwe mis arall. Nodwyd ei bod yn bwysig bod esboniadau clir yn cael eu darparu ar gyfer newidiadau i ddyddiadau cwblhau.

Dywedodd CW fod 11 o argymhellion ar hyn o bryd yn hwyr o chwe mis neu ragor. Nodwyd eto, wrth i argymhellion gael eu hymestyn am gyhyd, eu bod yn dod yn llai perthnasol.

Dywedodd ND fod gweithgareddau ymgysylltu a hyfforddiant wedi'u cynnal ar gyfer swyddogion ond awgrymodd, lle y byddai dyddiadau cau gwreiddiol yn cael eu hymestyn, fod angen i'r pennaeth adran perthnasol roi'r wybodaeth ddiweddaraf o ran cynnydd a'r rhesymeg y tu ôl i'r oedi er mwyn darparu lefel briodol o sicrwydd. Hefyd, dywedodd GM fod swyddogion wedi cael cais i wirio dibyniaethau ar yr argymhellion cyn dewis dyddiadau er mwyn sicrhau bod ganddynt oruchwyliaeth o'r holl faterion a allai effeithio ar weithredu'r argymhelliad.

Gofynnodd yr aelodau am gael gwybodaeth glir a chryno i'r pwyllgor ynghylch pam yr oedd argymhellion yn cael eu hymestyn. Cytunodd yr aelodau y dylent hefyd fod yn herio unrhyw newidiadau i gyfnodau pan fyddent yn bresennol mewn cyfarfod o'r bwrdd perthnasol a fyddai'n ystyried adolygiad o'r argymhellion.

Awgrymodd CM y dylid cynnal cyfarfod rhwng Nicola, Michelle a Gaynor i edrych ar y broses o roi gwybodaeth i'r Grŵp Llywodraethiant Archwilio fel y gellid casglu gwybodaeth mewn modd defnyddiol, ac yna ei drosglwyddo i'r pwyllgor hwn. Dywedodd GP wrth y pwyllgor ei fod yn mynd i'r afael â'r estyniadau yn y byrddau perthnasol yn y cyfarfodydd yr oedd yn eu cadeirio. Dilynodd trafodaeth mewn perthynas â chymeradwyo estyniadau, a cheisiwyd eglurhad.

**Cam gweithredu A 23 – dylid ystyried y broses ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth adolygu i'r Grŵp Llywodraethiant Archwilio o fforymau eraill, ac wedi hynny i'r Cyd-bwyllgor Archwilio. Cynnwys ystyried pwy ddylai fod yn gyfrifol am gytuno ar yr estyniadau.**

5. **Ystyried camau gweithredu cyfarfod y Grŵp Llywodraethiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2025 (Y Cyfarwyddwr Cyllid)**

Rhannodd EH yr wybodaeth ddiweddaraf o'r cyfarfod Llywodraethiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd. Dywedwyd wrth y pwyllgor bod camau gweithredu wedi'u codi i'r Arolygydd Janas ysgrifennu papur byr i dynnu sylw at effaith arolygiad effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu sydd ar ddod ar adnoddau. Dywedodd EH y cafwyd digwyddiad yn ddiweddar yn Heddlu Hampshire lle defnyddiwyd deallusrwydd artiffisial i dynnu honiadau yn ôl gan ddioddefwr heb yn wybod iddynt, a thynnwyd sylw at hyn i sicrhau bod y grŵp yn rhoi ystyriaeth ddyledus iddo o safbwynt llywodraethiant.

Croesawodd y pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf.

6. **Ystyried yr adroddiadau canlynol gan yr archwilwyr mewnol:**

   a. **Ystyried yr Adroddiad Cryno ar Sicrwydd Rheolaethau Mewnol (SICA)**

Cyflwynodd JM adroddiad SICA i'r aelodau, a dywedwyd wrthynt nad oedd unrhyw newidiadau i'r cynllun ac nad oedd unrhyw dwyll wedi'i ddwyn i sylw'r TIAA. Dywedodd JM fod disgwyl y byddai dau adroddiad gan yr Adran Adnoddau Dynol wedi'u cwblhau cyn y cyfarfod hwn ond eu bod yn dal i aros am sylwadau'r rheolwyr. O ran y ddau adolygiad TG a oedd yn weddill, nodwyd bod hwn yn waith ar droed a bod yr adolygiadau wedi'u cwmpasu.

Cyfeiriodd JM at yr argymhelliad â'r flaenoriaeth gyntaf a wnaed fel rhan o ddiogelu'r Broses Atafaelu am Droseddau, ac fel y soniwyd yn y cyfarfod blaenorol, nodwyd y byddai'r argymhelliad hwn yn cymryd o leiaf flwyddyn i'w weithredu oherwydd cymhlethdod y gwaith y byddai angen ei wneud.

Gofynnodd y cadeirydd am eglurder ynghylch yr oedi wrth gael sylwadau'r rheolwyr ar y ddau adolygiad gan yr Adran Adnoddau Dynol. Dywedodd LW wrth y pwyllgor fod yr oedi yn ddim byd mwy na llwyth gwaith a gwyliau olynol. Nodwyd y rheswm gan DM ac awgrymodd, er bod yr adroddiad wedi'i gyhoeddi ar 13 Hydref a'i fod wedi arwain at rywfaint o oedi, na ddylai fod wedi arwain at oedi o'r fath, nad oedd y rhesymau a roddwyd yn ddigon cadarn, a bod angen i swyddogion flaenoriaethu'r gwaith hwn. Dywedodd y cadeirydd fod y dyddiadau wedi'u cytuno ymlaen llaw i'w cynnwys yn y Cynllun Archwilio; felly, dylai'r swyddogion wedi bod mewn sefyllfa i gynllunio ar gyfer yr archwiliad ac i ddarparu sylwadau i'r rheolwyr. Dywedodd LW wrth y pwyllgor eu bod wedi ceisio recriwtio adnoddau ychwanegol ond nad oeddent wedi llwyddo hyd yn hyn.

Nodwyd yr adroddiad gan y pwyllgor.

   b. **Ystyried adolygiad dilynol interim 2024–2025**

Dywedodd JM fod yr adroddiad hwn wedi'i gyflwyno i'r cyfarfod blaenorol a'i fod wedi'i gynnwys ar yr agenda hon oherwydd y trafodaethau yr oedd eu hangen mewn perthynas â'r argymhelliad agored a drafodwyd yn gynharach yn y cyfarfod.

Gofynnodd y cadeirydd pryd y byddai'r adolygiad dilynol nesaf yn cael ei gynnal a chadarnhaodd JM y byddai hyn tua mis Chwefror neu fis Mawrth 2026.

c. **Ystyried yr adolygiad cydweithredol o gynllunio'r gweithlu**

Bu'r pwyllgor yn ystyried yr adroddiad ar yr adolygiad cydweithredol o gynllunio'r gweithlu, ac fe'i croesawyd. Nododd hefyd y sicrwydd sylweddol a ddarparwyd heb unrhyw argymhellion.

7. **Adolygu adroddiad Safon Ryngwladol ar Archwilio (ISA) 260 Archwilio Cymru mewn perthynas â'r cyfrifon ar gyfer 2024–2025**

Dywedodd y cadeirydd fod y pwyllgor wedi dod ynghyd ar gyfer cyfarfod rhagarweiniol ynghylch eitemau a nodwyd gan Archwilio Cymru mewn perthynas â datganiad o gyfrifon 2024–2025.

Cyflwynodd JB yr adroddiad ISA 260, a dywedodd mai dyma'r adroddiad arferol a geir yn dilyn casgliad archwiliad Archwilio Cymru o ddatganiadau ariannol y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Dywedodd JB fod Archwilio Cymru yn ceisio rhoi barn ddiamod ar yr holl gyfrifon, a oedd yn golygu bod y datganiadau yn gywir yn eu hanfod, ac yn farn archwilio lân.

Dywedwyd wrth yr aelodau bod datganiad heb ei gywiro yr oedd angen dwyn i'w sylw. Roedd y mater yn gysylltiedig â Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 16, sef y safon gyfrifyddu newydd mewn perthynas â phrydlesi. Cafodd ei gydnabod fel newid eithaf arwyddocaol a chymhleth, ac fel rhan o'r archwiliad canfuwyd bod gan dri ohonynt asedau wedi'u camddosbarthu yn erbyn y safon newydd. Nodwyd y byddai angen adolygiad pellach o hyn yn 2025–2026.

Nododd yr aelodau'r gwelliannau a oedd wedi'u cynnwys yn y set ddiwygiedig o gyfrifon a gyflwynwyd i'w cymeradwyo gan y pwyllgor. Cynghorwyd y pwyllgor hefyd am yr angen i gryfhau agweddau sicrhau ansawdd datganiadau o gyfrifon yn y dyfodol, er mwyn caniatáu pob cyfle posib i gwrdd â'r dyddiad cau, sef 30 Medi.

Dymunodd JB gofnodi ei fod yn diolch i'r holl swyddogion am y gwaith a wnaed ar y cyd ag Archwilio Cymru ar baratoi'r cyfrifon.

Mynegodd DM syndod at y sefyllfa mewn perthynas â chytundebau cydweithio, a nodwyd ei bod yn ymddangos bod y problemau wedi bod yn parhau ers rhai blynyddoedd. Mynegodd ei syndod, unwaith y byddai rheoliadau newydd yn cael eu cyflwyno, y byddai archwiliad o fewn blwyddyn neu ddwy wedi cynnwys gwiriadau ar weithrediad y trefniadau cyfrifyddu newydd. Holodd ynglŷn â sut y digwyddodd hyn a pham nad oedd Archwilio Cymru wedi sylwi arno. Dywedodd JB ei fod yn cytuno bod hyn wedi'i fethu, a dywedodd ymhellach fod y ffigurau'n cael eu llunio gan Heddlu De Cymru, eu harchwilio gan Heddlu De Cymru, gyda sicrwydd yn cael ei roi i Archwilio Cymru bod y ffigurau'n gywir. Mynegodd JB mai amryfusedd oedd hyn, ac y dylid wedi tynnu sylw ato yn gynt.

Dywedodd CW fod nifer o wallau datgelu, ac yr oedd yn pryderu nad oedd y cyfrifon a ddarparwyd i'r archwilwyr mor gywir ag y dylent fod. Pe bai hyn yn parhau yn y blynyddoedd i ddod, byddai'n debygol y gallai hyn olygu na fyddai'r dyddiad cau, sef 30 Medi, yn cael ei fodloni, a dywedodd fod hyn yn destun pryder.

Dywedodd EH fod gwersi i'w dysgu o ddarparu'r prosesau cyfrifyddu, ac y byddai swyddogion yn dysgu hyn yn ystod y flwyddyn i ddod. Ychwanegodd y byddai digwyddiad dysgu ôl-brosiect yn cael ei gynnal, gyda'r swyddogion yn bresennol ynddo.

**8. Cael memorandwm y cyfrifon terfynol**

Dywedwyd wrth yr aelodau bod yr adroddiad hwn fel arfer yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod yn dilyn cytuno ar y datganiad o gyfrifon, ond oherwydd yr oedi wrth baratoi'r cyfrifon, fe'i cyflwynwyd heddiw i'r aelodau ei ystyried.

Nododd yr aelodau'r adroddiad a gofynnwyd a allai'r pwyllgor gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y ffi derfynol ddiwygiedig ar gyfer archwilio cyfrifon 2024–2025. Dywedodd JB fod hyn wedi bod yn destun trafodaethau ond y byddai Archwilio Cymru yn cyflwyno llythyr archwilio blynyddol i gyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor Archwilio, a fyddai'n cynnwys y ffigur diwygiedig.

**9. Cael llythyrau cynrychiolaeth drafft 2024–2025 gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl**

Bu'r pwyllgor yn ystyried y llythyrau cynrychiolaeth, a chytunwyd arnynt.

**10. Argymell cymeradwyo'r datganiad blynyddol o gyfrifon ar gyfer cyfrifon y grŵp a chyfrifon y Prif Gwnstabl**

Bu'r aelodau yn ystyried y datganiad blynyddol o gyfrifon, a holodd y cadeirydd a fyddai fersiwn hawdd ei ddarllen yn ddefnyddiol. Dywedodd JB mai mater i gyrff unigol fyddai penderfynu beth y byddent yn dymuno ei gynnwys yn y datganiad o gyfrifon. Ychwanegodd AA fod trafodaethau'n parhau ar draws y meysydd cyfrifyddu i drafod yr wybodaeth yr oedd ei hangen yn y dogfennau, a sut y dylid cyflwyno hyn. Dywedodd DM efallai y gallai swyddogion ystyried crynodeb o'r datganiad o gyfrifon ar gyfer y dyfodol.

Dymunodd y pwyllgor ddiolch i bawb a fu'n rhan o gynhyrchu'r cyfrifon, ac argymhellodd eu cymeradwyo.

## 11. Yr wybodaeth ddiweddaraf ar weithgarwch twyll

Dywedodd NE nad oedd unrhyw wybodaeth bellach ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor.

## 12. Yr wybodaeth ddiweddaraf gan aelodau

Rhannodd yr aelodau wybodaeth gryno ar eu presenoldeb a'u cyfarfodydd priodol. Dywedodd FS fod y Bwrdd Sicrhau Gwybodaeth yn ystyried sut yr oedd staff yn cael mynediad at e-byst gwe-rwydo a sut y byddai hyn yn cael ei fonitro, gydag addysg bellach yn cael ei darparu.

Dywedodd CW fod Bwrdd y Fflyd yn llunio dangosfwrdd ar ddefnyddio cerbydau, a fyddai o gymorth i'r heddlu i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Nodwyd bod problemau o hyd o ran defnyddio cerbydau trydan oherwydd maint ardal yr heddlu.

Roedd y cadeirydd wedi bod i gyfarfod y Bwrdd Cynhyrchiant, a nododd bryderon gan yr Adran Adnoddau Dynol mewn perthynas â phrosiectau a oedd yn parhau heb fewnbwn wrth yr Adran Adnoddau Dynol. Cafwyd trafodaeth dda ar sicrhau bod gan dimau digidol a fforensig y cyfleusterau cywir ar gael iddynt i ymgymryd â'u gwaith.

## 13. Unrhyw fater arall

Siaradodd NE am y cais a wnaed gan y cadeirydd mewn perthynas â threfnu cyfarfod preifat gydag Archwilio Cymru a TIAA cyn toriad y Nadolig.

**Cam gweithredu A 24 – NE i drefnu cyfarfod preifat rhwng y pwyllgor a'r archwilwyr cyn toriad y Nadolig.**

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:**

**28 Ionawr 2026 – Y Cyd-bwyllgor Archwilio**

| | CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 2 Rhagfyr 2025 | | |
|---|---|---|---|
| **Rhif y cam gweithredu** | **Crynodeb o'r cam gweithredu** | **I'w yrru yn ei flaen gan** | **Cynnydd** |
| A 21 | Bod camau gweithredu A 14, A 17 ac A 19 o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Hydref yn cael eu diwygio i adlewyrchu bod y gwaith yn dal i fynd rhagddo, a bod yr unigolyn cyfrifol yn cael ei newid ar gyfer A 17 ac A 19 er mwyn adlewyrchu'r unigolyn cywir sy'n gyfrifol. | NE | **Wedi'i gwblhau** – mae'r argymhellion wedi'u diwygio yn unol â'r sylwadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2025. |
| A 22 | Cynlluniau Parhad Busnes i'w cynnwys ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod a gynhelir ym mis Ionawr 2026. | NE | **Wedi'i gwblhau** – darperir diweddariad llafar yn y cyfarfod a gynhelir ym mis Ionawr 2026. |
| A 23 | Ystyried y broses ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth adolygu i'r Grŵp Llywodraethiant Archwilio o fforymau eraill, ac wedi hynny i'r Cyd-bwyllgor Archwilio. Cynnwys ystyried pwy ddylai fod yn gyfrifol am gytuno ar yr estyniadau. | CM | **Wedi'i gwblhau** – trafodwyd hyn yn y Grŵp Llywodraethu Archwilio ar 15 Ionawr a darperir diweddariad pellach fel rhan o Eitem 6 ar agenda cyfarfod 28 Ionawr. |
| A 24 | NE i drefnu cyfarfod preifat rhwng y pwyllgor a'r archwilwyr cyn toriad y Nadolig. | NE | **Wedi'i gwblhau** – cynhaliwyd cyfarfod ar 18 Rhagfyr 2025. |